VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro
Vale Family Information Service

## Hysbysiad Preifatrwydd Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro

Mae Cyngor Bro Morgannwg ("y rheolydd data") wedi ymrwymo i ddiogelu preifatrwydd a diogelwch eich gwybodaeth bersonol.

Mae ein rhwymedigaethau craidd o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a'n hymrwymiadau wedi'u nodi yn Hysbysiad Preifatrwydd y Cyngor.

**Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn darparu gwybodaeth preifatrwydd ychwanegol ar gyfer:**

Unigolion sy'n cysylltu â Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro, yn chwilio am wybodaeth am ddarparwyr gofal plant, gweithgareddau teulu/gwasanaethau cymorth/iechyd a lles/addysg yn eu hardal leol.

**Mae'n disgrifio sut rydym yn casglu, defnyddio a rhannu gwybodaeth bersonol amdanoch chi:**

- Cyn, yn ystod ac ar ôl i'ch perthynas â ni ddod i ben a'r
- mathau o wybodaeth bersonol y mae angen i ni eu prosesu, gan gynnwys gwybodaeth y mae'r gyfraith yn ei disgrifio fel 'arbennig' oherwydd ei sensitifrwydd.
- Cynnig gwasanaeth cynhwysfawr gan gynnwys canllawiau i unigolion (rhieni/gofalwyr/gweithwyr proffesiynol) am ofal plant a gwasanaethau blynyddoedd cynnar yn yr ardal leol.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen yr hysbysiad hwn, ynghyd ag unrhyw wybodaeth arall am breifatrwydd, fel eich bod yn ymwybodol o sut a pham yr ydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol.

Wrth benderfynu pa wybodaeth bersonol i'w chasglu, ei defnyddio a'i chadw, rydym wedi ymrwymo i sicrhau y byddwn:

- yn casglu, cadw a defnyddio gwybodaeth bersonol dim ond pan fo'n angenrheidiol ac yn deg gwneud hynny.
- yn cadw a gwarchod eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel
- yn cael gwared ar unrhyw wybodaeth bersonol yn ddiogel pan nad oes ei hangen mwyach.
- yn agored gyda chi ynglŷn â sut rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth a gyda phwy rydym yn ei rhannu; ac
- yn mabwysiadu a chynnal safonau uchel arfer gorau wrth drin unrhyw wybodaeth bersonol.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut rydym yn defnyddio unrhyw wybodaeth bersonol a gasglwn amdanoch pan fyddwch yn defnyddio ein gwasanaeth.

## 1. Pa wybodaeth rydym yn ei chasglu amdanoch chi?

Rydym yn casglu gwybodaeth amdanoch pan fyddwch yn cysylltu â'n gwasanaeth i gael gwybodaeth am wasanaethau a gweithgareddau. Gall y wybodaeth amdanoch gynnwys eich enw, cyfeiriad e-bost, cyfeiriad post, a rhif ffôn neu ffôn symudol.

Byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth i ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen, cynnal cofnodion cywir, ac, os ydych yn cytuno, i anfon gwybodaeth farchnata atoch am ddigwyddiadau neu wasanaethau.

Rydym hefyd yn casglu gwybodaeth pan fyddwch yn cwblhau arolygon cwsmeriaid yn wirfoddol neu'n darparu adborth.

## 2. Ffyrdd rydym yn casglu eich gwybodaeth

**Wyneb yn Wyneb:**

Efallai y byddwn yn cadw cofnod o'ch ymweliad â ni i'n cynorthwyo i ddarparu a gwella'r gwasanaethau a ddarparwn i chi ac i eraill. Bydd unrhyw gofnodion o'r fath sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol yn cael eu cadw'n ddiogel.

**Galwadau ffôn:**

Os byddwch yn ein ffonio efallai y byddwn yn cadw eich manylion er mwyn ateb eich ymholiad. Byddwn yn rhoi gwybod i chi os byddwn yn cadw unrhyw wybodaeth.

**E-byst:**

Os byddwch yn anfon e-bost atom, efallai y byddwn yn cadw eich cyfeiriad e-bost fel cofnod yr ydych wedi cysylltu â ni ac er mwyn ateb eich ymholiad. Byddwn ond yn cynnwys gwybodaeth bersonol mewn e-byst er mwyn i ni ddarparu gwasanaeth gwybodaeth i chi. Byddem hefyd yn argymell eich bod yn cadw cyn lleied â phosibl o wybodaeth bersonol neu gyfrinachol yr ydych yn ei hanfon atom drwy e-bost, oni bai ein bod angen y wybodaeth i ddarparu gwasanaeth i chi.

**Ar-lein:**

**Ffurflen Ymholiad**

Os byddwch yn cwblhau ein ffurflen ymholiad ar-lein, efallai y byddwn yn cadw eich enw, cyfeiriad e-bost, cyfeiriad post, a rhif ffôn neu ffôn symudol, fel cofnod eich bod wedi cysylltu â ni ac i ateb eich ymholiad.

**Cyfryngau Cymdeithasol**

Os byddwch yn cysylltu â ni drwy'r cyfryngau cymdeithasol, byddwn yn cadw eich manylion nes ein bod wedi prosesu eich ymholiad. Yna byddwn yn eu dileu o'r cyfryngau cymdeithasol.

**Ffurflen Adborth**

Os byddwch yn cwblhau ein ffurflen adborth ac yn gofyn am ragor o wybodaeth, efallai y byddwn yn cadw eich enw, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn neu ffôn symudol, fel cofnod eich bod wedi cysylltu â ni ac i ateb eich ymholiad.

**Cwcis**

Cesglir gwybodaeth am ddefnydd o'r wefan gan ddefnyddio cwcis. Gellir dod o hyd i fanylion am sut rydym yn defnyddio cwcis ar ein gwefan ar y ddolen ganlynol: https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Disclaimers.aspx

**Gwefannau eraill**

Ar ein gwefan fe welwch ddolenni i wefannau allanol eraill, yr ydym wedi'u darparu ar gyfer eich gwybodaeth a'ch hwylustod. Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn berthnasol i Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro yn unig. Nid ydym yn gyfrifol am gynnwys y gwefannau eraill hynny. Pan fyddwch yn ymweld â gwefannau eraill, rydym yn argymell eich bod yn cymryd amser i ddarllen eu hysbysiadau preifatrwydd.

**3. Sut y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth amdanoch chi?**

Mae'r wybodaeth rydym yn ei chasglu amdanoch yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r contract rhyngom.

Mae'n cael ei ddefnyddio:

- at y diben y gwnaethoch ddarparu'r wybodaeth ar ei chyfer, h.y. er mwyn rhoi gwybodaeth i chi am wasanaethau a gweithgareddau i deuluoedd.
- i'n galluogi i gyfathrebu â chi i ateb ymholiadau ac i ddosbarthu gwybodaeth.
- i fonitro ein perfformiad wrth ddarparu gwasanaethau i chi.
- i gasglu gwybodaeth ystadegol i'n galluogi i gynllunio datblygiad y gwasanaeth yn y dyfodol.
- i gael eich barn am ein gwasanaeth os ydych yn rhoi caniatâd i ni gysylltu â chi.
- i anfon gwybodaeth atoch am ddigwyddiadau neu wasanaethau os ydych wedi gofyn am hyn.

**4. Cadw eich data personol yn ddiogel**

Caiff eich gwybodaeth bersonol ei phrosesu yn unol â Hysbysiad Preifatrwydd Cyngor Bro Morgannwg. Fe'i cedwir yn ddiogel ar gronfa ddata Dewis Cymru, sef cronfa ddata Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a lles a rennir, sy'n storio manylion yr ymholwr. Mae hon yn bartneriaeth rhwng 21 o Wasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd Cymru. Mae ein gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd i rannu costau a chynnig gwell gwasanaethau i gwsmeriaid. Bydd eich data ond yn cael ei ddefnyddio at ddibenion darparu gwybodaeth i chi sy'n ymwneud â gwasanaethau a gweithgareddau teuluol ac fe'i defnyddir mewn ffordd sy'n amddiffyn eich preifatrwydd.

Os ydych wedi rhoi caniatâd i Data Cymru anfon arolwg boddhad cwsmeriaid atoch, bydd unrhyw wybodaeth bersonol a roddwch gyda'ch adborth hefyd yn cael ei chadw'n ddiogel ar safle Dewis Cymru.

Mae eich data hefyd ar gael i Data Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal Dewis. Mae Data Cymru wedi ymrwymo i ymdrin â data yn unol â'r egwyddorion yn Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) 2018 a dim ond i'r graddau sy'n ofynnol i gynnal y system y bydd yn gwneud hynny.

Os byddwch yn rhoi adborth i ni drwy ein harolwg 'Mae Eich Barn o Bwys' ac angen rhagor o wybodaeth, bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei storio'n ddiogel ar SharePoint ein Tîm Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. Bydd eich data ond yn cael ei ddefnyddio at ddibenion darparu gwybodaeth i chi sy'n ymwneud â gwasanaethau a gweithgareddau teuluol, ac fe'i defnyddir mewn ffordd sy'n diogelu eich preifatrwydd.

Gellir defnyddio'r wybodaeth a roddwch hefyd at ddibenion ystadegol.  Lle bo hynny'n wir, bydd y data perthnasol yn ddienw o'r dechrau i ddileu unrhyw nodweddion adnabod.

**Datgelu gwybodaeth i bartïon allanol**

Ni fyddwn yn datgelu eich gwybodaeth i unrhyw drydydd parti arall, ac eithrio lle bo hynny'n ofynnol yn ôl y gyfraith, fel y disgrifir yn Hysbysiad Preifatrwydd y Cyngor.

Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth at ddibenion marchnata gyda chwmnïau y tu allan i Wasanaeth Teulu'r Fro.  Ni fydd eich gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo na'i rhannu ag unrhyw sefydliad y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE).

Os ydych yn cydsynio i ni gasglu a rhannu gwybodaeth am eich cefndir ethnig, eich credoau crefyddol, neu unrhyw anabledd sydd gennych, byddwn ond yn gwneud hynny er mwyn cyflawni ein dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac i sicrhau bod y gwasanaeth a ddarparwn i chi yn addas ar gyfer eich anghenion.

## 5. Hyd yr amser byddwn yn cadw'ch gwybodaeth

Mae'r amserlen gadw isod yn cynnwys gwybodaeth am ba mor hir yr ydym yn cadw gwahanol fathau o wybodaeth.

| Cofnodion | Cyfnod Cadw | Pwynt Sbarduno ar gyfer Cadw | Gweithredu yn dilyn Cyfnod Cadw | Awdurdod o ran creu a chadw cofnodion |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa ddata ar-lein Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Dewis – manylion sefydliadau a gwasanaethau Bro Morgannwg | Rhaglen dreigl 6 mis | Dyddiad adolygu 6 mis | Parhau i gyhoeddi neu ddileu | Partneriaeth Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Dewis gyda Data Cymru |
| Cronfa ddata ar-lein gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Dewis – manylion ymholwyr | 18 mis ac yna dienwi'r ymholiadau | Rhaglen dreigl 18 mis | Dienwi'r ymholiadau | Partneriaeth Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Dewis gyda Data Cymru |
| Cronfa ddata ar-lein gwasanaeth Gwybodaeth i | 6 mis ac yna dienwi'r adborth | 6 mis | Dienwi'r adborth | Partneriaeth Gwasanaeth Gwybodaeth i |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Deuluoedd Dewis – manylion y rhai sy'n cwblhau'r arolwg boddhad cwsmeriaid | | | | Deuluoedd Dewis gyda Data Cymru |
| Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Arolwg Mae Eich Barn o Bwys – manylion y rhai sy'n cwblhau'r arolwg | 18 mis ac yna mae'r adborth yn cael ei ddienwi | 18 mis | Dienwi'r adborth | Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Cyngor Bro Morgannwg |

### 6. Sut i gael gafael ar y wybodaeth sydd gennym amdanoch chi

Mae gennych hawl i ofyn am gopi o'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch. Os hoffech wneud hynny, cysylltwch â Swyddog Diogelu Data Cyngor Bro Morgannwg drwy e-bost neu drwy'r post, gan roi cymaint o fanylion â phosibl i ni am y wybodaeth sydd ei hangen arnoch.

Swyddog Diogelu Data
Cyngor Bro Morgannwg
Swyddfeydd Dinesig
Heol Holltwn
Y Barri
Bro Morgannwg
CF63 4RU

01446 700111
dpo@valeofglamorgan.gov.uk

Gallwch gysylltu â ni i ofyn am ddileu'r wybodaeth sydd gennym amdanoch. Cysylltwch â:

**Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro**

fis@valeofglamorgan.gov.uk

www.bromorgannwg.gov.uk

I arfer unrhyw un o'ch hawliau o dan y ddeddfwriaeth Diogelu Data

Am fwy o fanylion, darllenwch Hysbysiad Preifatrwydd Cyngor Bro Morgannwg ac i arfer eich hawliau, cysylltwch â:

Swyddog Diogelu Data
Cyngor Bro Morgannwg
Swyddfeydd Dinesig
Heol Holltwn
Y Barri
Bro Morgannwg
CF63 4RU

01446 700111
dpo@valeofglamorgan.gov.uk

I gael cyngor annibynnol ar ddiogelu data, preifatrwydd, materion rhannu data, neu i wneud cwyn, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
2il Lawr
Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH

029 2067 8400
wales@ico.org.uk
ico.org.uk

**Mawrth 2025**